Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Uwch-ysgrifennwr Ceisiadau GREAT |
| **Adran/Pwnc:** | Seicoleg |
| **Cyflog:** | Gradd 08 £38,205 – £44,263 y flwyddyn (pro rata) ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 21 awr yr wythnos (60% CALl) |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Cyfnod penodol tan fis Mawrth 2025 |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli a goruchwylio pob agwedd ar ddatblygu cais, gan gefnogi dosbarthu a chynaliadwyedd ymchwil y rhwydwaith, a sicrhau cyllid allanol cystadleuol. Felly, byddwch yn rhan o adolygu a chrynhoi canfyddiadau'r ymchwil, yn llunio ceisiadau drafft ac yn sganio'r gorwel am flychau mewn gwybodaeth wrth astudio gamblo a sut i leihau ei niwed.<br>2. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, bathu syniadau gwreiddiol a chyflwyno canfyddiadau.<br>3. Paratoi adroddiadau, llunio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>4. Dangos hunangymhelliant a defnyddio menter bersonol, gan geisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen.<br>5. Rhyngweithio'n bositif ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn yr Ysgol a mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis mewn elusennau iechyd meddwl cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, sefydliadau cyhoeddus a'r byd academaidd.<br>6. Cyfrannu at faterion trefniadol yr Ysgol i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>*7.* Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes yn nhermau technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiadau ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>8. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau yn ôl yr angen, gan achub ar y cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>9. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun a darparu tystiolaeth ohono, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>10. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>11. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion Sefydliadau Addysg Uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 12. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>13. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>14. Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>15. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>16. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |

| | |
|---|---|
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>**<br><br>**Gwerthoedd:**<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>• Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.<br>• Tystiolaeth o ddangos ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol<br><br>**Cymwysterau:**<br>1. Gradd PhD wedi'i chwblhau, neu i'w chwblhau'n fuan (e.e., o fewn tri mis) mewn Seicoleg neu faes cysylltiedig.<br><br>**Profiad:**<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan ragweithiol mewn gwaith ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil a chyfrannu at y gwaith hwn, yn enwedig adolygiadau systematig, ar gyfer cyfnodolion effaith uchel a adolygir.<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan ragweithiol mewn ysgrifennu ceisiadau am grantiau ymchwil allanol, a chyfrannu atynt.<br>4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>5. Diddordeb mewn ymchwil gamblo a thriniaethau ar sail tystiolaeth ar gyfer gamblo niweidiol.<br>6. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br>7. Sgiliau trefnu a chyfathrebu ardderchog.<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau:**<br><br>**Yr Iaith Gymraeg:**<br>Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon) |

| | |
|---|---|
| | *e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau.Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.*<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br>1. Profiad blaenorol o fod yn rhan o geisiadau llwyddiannus ar gyfer cyllid ymchwil mewn naill ai ymchwil sy'n gysylltiedig â gamblo neu ymchwil i ddibyniaeth/iechyd meddwl. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Simon Dymond (s.o.dymond@abertawe.ac.uk |